# Derbyn ceffyl a chynnal asesiad cychwynnol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â derbyn ceffyl a chynnal asesiad cychwynnol.

Mae'r meysydd yn cynnwys newydd-ddyfodiaid, adsefydlu, ailgartrefu, ymddeol ac ailhyfforddi.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. derbyn y ceffyl mewn ffordd fydd yn hybu ei gydweithrediad a lleihau trallod
3. ymdrin ac atal y ceffyl mewn ffordd nad yw'n peryglu lles anifeiliaid, yn osgoi ymddygiad sy'n peri pryder o ran lles ac yn cynnal iechyd a diogelwch
4. ymgartrefu'r ceffyl mewn llety priodol neu ardal asesu
5. cynnal asesiad cychwynnol o'r ceffyl yn cynnwys hunaniaeth, cyflwr corfforol, iechyd, symudedd, ymddygiad a chryfderau a gwendidau
6. cadw cofnodion cywir a diweddar yn unol â deddfwriaeth berthnasol a'r sefydliad yr ydych yn gweithio iddo
7. sicrhau bod gan bob aelod arall o'r staff fanylion priodol yn cynnwys unrhyw ofynion penodol
8. gwneud unrhyw weithredoedd dilynol sy'n ofynnol ar ôl derbyn y ceffyl
9. sicrhau bod lefelau priodol o hylendid a bioddiogelwch yn cael eu cynnal
10. monitro a hybu iechyd a lles y ceffyl drwy'r amser
11. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. sut i dderbyn ceffyl a'i ymgartrefu mewn llety priodol neu ardal asesu
3. sut i ddewis y dull priodol o ymdrin ac atal ar gyfer ceffyl
4. y gweithdrefnau asesu cychwynnol a pham y dylid eu gwneud
5. y mathau o weithredoedd dilynol a allai fod eu hangen ar ôl derbyn y ceffyl
6. pwysigrwydd cadw cofnodion cyflawn a chywir fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth berthnasol a'r sefydliad yr ydych yn gweithio iddo
7. pwysigrwydd cyfrinachedd gwybodaeth a diogelu data
8. pwysigrwydd cynnal lefelau priodol o hylendid a bioddiogelwch a sut y gellir cyflawni'r rhain
9. sut i reoli cyfathrebu, yn fewnol ac yn allanol
10. y ffactorau a allai effeithio ar asesiad cychwynnol y ceffyl
11. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac i eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
12. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Derbyn y mathau canlynol o geffyl:

- y rheiny sy'n ymddangos mewn cyflwr da yn gyffredinol
- y rheiny sy'n ymddangos mewn cyflwr gwael
- y rheiny â symudedd cyfyngedig

Cynnal asesiad cychwynnol ar y mathau canlynol o geffyl:

- y rheiny sy'n ymddangos mewn cyflwr da yn gyffredinol
- y rheiny sy'n ymddangos mewn cyflwr gwael
- y rheiny â symudedd cyfyngedig

Derbyn ceffyl a chynnal asesiad cychwynnol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq302 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; adsefydlu; ailhyfforddi; ymddeol; ailgartrefu; iechyd a lles anifeiliaid |